EDEN WERDD

NIA WYNN DAVIES SY'N EIN TYWYS AR DAITH O'R HYN A WELIR O FAES EISTEDDFOD YR URDD 2020

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd eleni ar gyrion tref Dinbych ar gaeau gwastad fferm Kilford, ynghanol gogoniant Dyffryn Clwyd. Yn ôl y Prifardd Gwilym R. Jones – a arferai drigo yn y dref – mae'r dyffryn hwn yn '*Eden werdd*

Yr Eglwys Wen

Prydain', ac yn ôl yr hanesydd lleol Frank Price Jones, mae'r dyffryn yn lle 'paradwysaidd', yn 'ail Eden', ac yn 'ddihareb o ffrwythlon'. Lleoliad hyfryd, felly, i gynnal yr Eisteddfod.

Dyma gyfle i adnabod yr ardal sydd o fewn tafliad carreg i'r Maes. I gyfeiriad y de, gyferbyn â safle'r brifwyl, saif Fferm Kilford. Maenor a greodd Henry de Lacy, Iarll Lincoln ac Arglwydd cyntaf Dinbych, oedd y fferm yn wreiddiol. Yn 1282, rhoddodd Edward I dref Dinbych a'r ardal oddi cwmpas i de Lacy; cododd yntau gastell gyda'r bwriad o ddefnyddio'r faenor i gynnal pobl ei gastell newydd.

Cyfeirir at Faenor Kilford yng Nghofnodion Dinbych a'i Harglwyddiaeth, 1334. Yn ôl www.surnamedb.com tarddiad yr enw Kilford yw'r 'cil' Cymraeg a'r 'ford' o'r Hen Saesneg, Ond, yn 'Crwydro Gorllewin Dinbych', mae Frank Price Jones yn galw'r fferm yn Cilffwrn. Ar y fferm mae adeilad rhestredig Gradd II. Ysgubor o ail chwarter y 19feg Ganrif sy'n cynnwys tri thrawst gordd a arferai fod yn rhan o Neuadd Fawr Lleweni, neuadd ganoloesol enwog gerllaw.

Moel Arthur summonedbyfells

Tua'r gorllewin o'r Maes, tuag at dref Dinbych, gwelir Eglwys y Santes Farchell yn edrych i lawr arnom o'i mymryn o

Bedd Twm o'r Nant

godiad tir. Gelwir yr eglwys hefyd yn Eglwys Wen, oherwydd, o bosib, ar un adeg, roedd y waliau allanol wedi eu gwyngalchu. Hon oedd eglwys blwyf wreiddiol Dinbych. Fe'i hadeiladwyd ar safle cell y Santes Faerchell o'r 7fed Ganrif. Ceir cyfeiriad am yr eglwys yn 'Nhrethiant Norwich 1254'. Dim ond y tŵr, un o'r pyrth, a Drws y Rheithor sy'n aros o'r cyfnod cynnar. Dyddia'r rhan fwyaf o'r adeilad presennol o'r 16eg Ganrif. Mae'n enghraifft glasurol o arddull deugorff Dyffryn Clwyd, yn eglwys ddwbl. Ceir rhesi o gerfiadau diddorol ar hyd muriau'r eglwys.

O fewn yr eglwys, hefyd, ceir cofebion lu i fawrion yr ardal. Teuluoedd Milton, Heaton, Twiston a Myddelton. Ar y mur ger yr allor, ceir cofeb i Hwmffre Llwyd, y gŵr a luniodd y map cyntaf o Gymru i gael ei argraffu. Yn hanner deheuol yr eglwys, gwelir bedd-fwrdd Siôn y Bodie a'i wraig. Bu o, Syr John Salisbury, farw yn 1578. Cafodd y llysenw, mae'n debyg, oherwydd anffurfiad corfforol, ac mae ei holl fodiau a bysedd wedi eu torri ymaith gan edmygwyr ohono. Yn ôl y sôn, cladddwyd calon Richard Clough yn yr eglwys. Masnachwr a anwyd yn Ninbych oedd a bu iddo orchymyn i'w galon ddychwelyd o Hambwrg mewn casged arian i'w chladdu yn yr eglwys. Ar dalcen gorllewinol yr eglwys, mae cofeb fechan i

Y *Cambriae Typus* yw'r map printiedig cynharaf o Gymru. Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Twm o'r Nant. Ond yn y fynwent, o dan yr ywen gerllaw tŵr yr eglwys, y mae ei fedd sydd â dau englyn arno:

Geirda roe i gywirdeb – yn bennaf
Ni dderbyniai wyneb;
A rhoe sen i drawsineb
A'i ganiad yn anad neb.

Er cymmaint oedd braint a bri – ei anian
Am enwog farddoni
Mae'r Awen a'i hacen hi,
Man tawel yma'n tewi.

Yn y fynwent hefyd, mae cofeb farmor fawr i Dr Evan Pierce, meddyg a gynorthwyodd i reoli epidemig o golera yn Ninbych tua 1832, a chist-fedd Thomas Jones, y bardd a'r awdur a fu, ar y cyd â Thomas Charles, yn arweinydd y gwrthgiliad Calfinistaidd oddi wrth yr Eglwys Sefydledig.

Wrth edrych tua'r gogledd o'r Maes, cewch gip ar diroedd ystâd hen blasty Lleweni. Roedd Neuadd Lleweni, sedd teulu Salisbury unwaith, yn blasty canoloesol diweddar pwysig.

Codwch eich golygon tua'r dwyrain ac fe welwch gadwyn o foelydd llyfnion Bryniau Clwyd, sydd megis asgwrn cefn dirweddol i Sir Ddinbych. 395 miliwn o flynyddoedd yn ôl môr bâs oedd llawer

Bedd Dr Evan Pierce

o'r gogledd-ddwyrain gyda sialau yn haenau o ddyddodion ar wely'r môr hwn. O ganlyniad i symudiadau daear anferth, codwyd y creigiau gan ffurfio'r gadwyn o fryniau. Clustnodwyd Bryniau Clwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ym mis Gorffennaf 1985, oherwydd y priodweddau arbennig yno. Mae'r fflora, ffawna a nodweddion daearegol, yn ogystal â'r tirwedd a'r prydferthwch naturiol felly wedi eu gwarchod. Mae yno hefyd gyfoeth o drysorau archeolegol, pensaernïol a hanesyddol.

Yn amlwg iawn o faes yr Eisteddfod y mae Moel Arthur, moel gyda bryngaer fechan gron yn goron arno, ac i'r chwith o Foel Arthur, moel o'r enw Penycloddiau. Dim ond ychydig dros ddau hectar yw'r fryngaer ar Foel Arthur, ond medda ar rai o'r cloddiau a'r ffosydd mwyaf o'r holl fryngaerau. Penycloddiau yw'r fryngaer fwyaf ar Fryniau Clwyd, yn amgáu arwynebedd o 21 hectar. Dyma un o'r rhai mwyaf yng Nghymru hefyd. Mae'r ddwy fryngaer yn dyddio yn ôl i'r Oes Haearn, ond mae tomen gladdu bosib o'r Oes Efydd ar safle'r ddwy fryngaer.

Os ydych am fwy o seibiant o'r cystadlu, ewch i grwydro ar hyd y moelydd gan ddilyn llwybr Clawdd Offa. Ar ddiwrnod braf a chlir, bydd y golygfeydd yn ogoneddus. Dim ond gobeithio y deil y tywydd i chi weld yr ardal ar ei gorau.

Atebion Posau

RHIF 206

POS ACHOS DA

Ar draws: 7 eirlaw 8 gwawr y 9 drwy 10 Nantglyn 11 anwiredd 12 coron 15 meini 17 Llwyn Onn 20 Albanwyr 22 Iawn 23 gyrwyr 24 Olifer
I lawr: 1 llithren 2 Olwynion 3 chwannen 4 egino 5 saig 6 arwyddo 13 ochneidio 14 gwirion 16 Eglwys 18 nawfed 19 Gwern 21 adwy

ATEB: LLOCHES ASYNNOD

POS DAU GANMLWYDDIANT

1 lleuad – dallu – dull 2 medal – Aled – ael 3 ewyrth – werth – wrth 4 clawr – cawl – acw 5 herio – Oeri – oer 6 corun – Corn – cor 7 amser – saer – ers 8 phopeth – poeth – Theo 9 Arwel – awel – elw 10 petal – talp – Pla 11 Tywyn – twyn – Wyn 12 dinas – naid – dan

ATEB: EMYR HUMPHREYS, ADELINA PATTI